# Cenn@d

15 Ebrill 2026

Rhifyn 268

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru




## Glywsoch chi sŵn y ‘Diwygiad Tawel’?




Cyhoeddwyd adroddiad ‘The Quiet Revival’ gan Gymdeithas y Beibl ym mis Ebrill 2025, yn dilyn gwaith ymchwil a wnaed gan YouGov yng Nghymru a Lloegr, gyda thua 13,000 o bobl yn cael eu holi. Fodd bynnag, bu’n rhaid tynnu’r adroddiad hwn yn ôl yn ddiweddar, wedi iddi ddod i’r amlwg nad oedd y data a ddefnyddiwyd yn ddilys nac yn ddibynadwy. Rhaid pwysleisio nad oedd unrhyw fai ar Gymdeithas y Beibl am hyn, gan iddynt dderbyn sicrwydd gan YouGov fod y data’n gywir. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ganddynt, roeddent wedi honni bod canran y boblogaeth sy’n mynychu eglwys wedi cynyddu o 8% o’r boblogaeth yn 2018 i 12% yn 2024, a bod y twf mwyaf sylweddol wedi bod ymhlith pobl ifanc, sef cynnydd o 4% yn 2018 i 16% yn 2024.


Gyda siom y derbyniwyd y newyddion, er efallai nad oedd yn syndod i rai, a oedd wedi cwestiynu dilysrwydd yr arolwg ar y pryd. Roedd ffynonellau eraill, fel y British Social Attitudes Survey, yn dangos canlyniadau gwahanol, gan gyhoeddi bod y nifer sy’n mynychu’r eglwys yn parhau i ostwng, a bod cynnydd mewn ambell achos wedi ei liwio gan nifer y mewnfudwyr a cheiswyr lloches, gyda nifer yn ffoi o wledydd Catholig a Phentecostaidd.

### Ymateb Cymdeithas y Beibl

Mewn ymateb, dywedodd Siân Wyn Rees, pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru, ‘Er y siom, dydy hyn ddim yn dileu be mae’r Arglwydd wedi bod yn ei wneud yng Nghymru dros y cyfnod diwethaf. Roedden ni’n gweld twf yn yr eglwys, a phobl yn bod yn fwy agored ymhell cyn i adroddiad y Diwygiad Tawel gael ei gyhoeddi. Dyw e ddim yn anecdotal – mae’n ategu’r hyn rydyn ni’n ei weld. Mae pobl yn fwy agored i ffydd ar hyn o bryd ac yn holi cwestiynau, ac mae hynny’n beth braf.’

### Data ein henwadau Cymreig

O edrych ar ddata’r ddau enwad sy’n rhan o gyhoeddi *Cenn@d*, mae’r ystadegau’n dal i ddangos dirywiad blynyddol. Yn 2019 roedd gan Undeb Bedyddwyr Cymru 9,052 o aelodau, ond erbyn 2024 roedd y ffigwr hwn wedi gostwng i 6,647, gostyngiad o 27%. Yn yr un modd roedd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru 17,493 o aelodau yn 2019, ond unwaith eto roedd hynny wedi gostwng i 11,521 erbyn 2025, sef gostyngiad o 33%. Yn ddiweddar cyhoeddwyd adroddiad helaeth a sylweddol gan y British Social Attitudes Research, ac mae’r Pew Research Centre UK wedi mynd ati i ddehongli’r data hwn, gan ddangos canlyniadau digon tebyg i ddata ein henwadau ni.




### Y gwir ddarlun?

Mae’n debyg fod y gwirionedd rywle yn y canol – heb os, mae ’na storïau o adfywiad, o dwf ac o genadaethau sy’n llwyddo ar hyd a lled ein gwlad. Mae ein henwadau hefyd yn addasu, gan ddatblygu rhaglenni mentrus a chenhadol a buddsoddi’n drwm mewn plannu eglwysi a sefydlu mentrau newydd. Ond yr un pryd, mae ’na gapeli ac eglwysi yn cau, mae cynulleidfaoedd yn edwino, a ffydd i’w gweld yn hollol amherthnasol i lawer erbyn hyn.

### Arwyddion gobeithiol

Yn dilyn cyhoeddi’r adroddiad hwn flwyddyn yn ôl, cafwyd llawer o storïau lleol o Gymru, yn rhannu hanesion cyffrous yn sôn am fwrlwm a chynnwrf mewn eglwysi lleol, a nifer o eglwysi newydd hefyd wedi’u plannu. Mae llawer yn honni bod hyn yn dangos bod pobl ifanc yn arbennig yn chwilio am gymuned ysbrydol mewn ffordd fwy gweithredol nag o’r blaen. Diolch am bob un hanes am bobl yn ailgysylltu neu’n troi mewn am y tro cyntaf i brofi bywyd ffydd.

Yr her i ni yw ystyried beth yw ein rôl ni yn hyn i gyd. Pa gamau ydyn ni’n fodlon eu cymryd fel eglwysi er mwyn gofalu bod ein haddoliad yn fyw ac yn berthnasol, bod ein croeso yn gynnes a diffuant, a bod ’na awydd ynom i weld a phrofi’r diwygiad tawel hwn yn ein cynulleidfaoedd? Gweddïwn am weld Duw yn cyffwrdd bywydau pobl eto yn y blynyddoedd nesaf hyn, ac wedi i YouGov ailgynnal yr arolwg, y cawn adroddiad newydd a fydd yn sôn am dwf a chynnydd.

*Aled Davies*


Etholiad y Senedd ar 7 Mai eleni
**Tudalen 2**

Ymson Michal
**Tudalen 3**

Awtomeiddio Rhyfel
**Tudalen 4**

# O'r byd a'r betws

Colofn Denzil I John



## Etholiad y Senedd, Mai 2026

Mae llawer wedi darogan y bydd y seithfed etholiad ar gyfer Senedd Cymru a gynhelir ar 7 Mai yn wahanol i'r rhai blaenorol. Yn ôl y polau piniwn bydd y Blaid Lafur yn colli ei lle fel y blaid gryfaf, a'r Blaid Werdd, Plaid Cymru a Phlaid Reform wedi cryfhau eu gafael ar yr etholwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhaid aros tan 8 Mai cyn y datgelir canlyniadau'r unig bôl piniwn perthnasol, ac yna bydd llawer o drafod ymysg naw deg aelod y senedd newydd ar ffurf y llywodraeth. Os na fydd un blaid yn medru hawlio mwyafrif llwyr o fewn y 96 aelod, yna'r tebygolrwydd yw y gwelwn gydweithio neu gynghreirio rhwng pleidiau o ddaliadau tebyg. Yn naturiol, ni fydd unrhyw blaid am ddatgelu gormod o'u cynlluniau ymlaen llaw, ond bydd y broses o ethol aelodau drwy'r system gyfrannol yn ddifyr.

Bydd rhai o blith yr enwadau am ddweud na ddylai'r eglwysi ymyrryd yn y maes gwleidyddol, ond bydd eraill wedi hen arfer â rhannu datganiadau cyhoeddus. Mae'n bwysig bod y cyrff crefyddol yn cyflwyno datganiadau ac yn rhannu safbwyntiau ar agweddau o waith y Senedd wrth drin materion megis iechyd, addysg, yr amgylchedd, heddwch, economi, ac ati. Mae'n wir na ddylai'r cyrff enwadol ddangos tueddiad o blaid nac yn erbyn unrhyw blaid yn benodol, ond mae'r egwyddorion sy'n sylfaenol i weinyddu gwladwriaethau'r byd yn gofyn am sylwadau o'r fath.

Cytûn
Eglwysi ynghyd yng Nghymru
Churches together in Wales

Ar wefan Cytûn, ceir adran ddiddorol a defnyddiol yn cynnig arweiniad i eglwysi a'r enwadau wrth ystyried ein diwinyddiaeth gyhoeddus. Anogwn ddarllenwyr *Cenn@d* i ymweld â'r wefan ac i wahodd cynrychiolwyr o'r ymgeiswyr yn yr etholiad i gyfarfod â'ch eglwys, neu i fynychu cyfarfod cyhoeddus megis eich cangen Cytûn leol. Ceir arweiniad gwerthfawr ar wefan Cytûn ar sut i wneud hyn, a pha fath o gwestiynau y gellid eu gofyn. Felly, ewch i:

**https://www.cytun.co.uk/etholiad-2026/**

Ar y wefan, ceir dyfyniad gan Bonhoeffer sy'n dweud:

> Mae Cristnogaeth yn sefyll neu'n cwympo gyda'i phrotest chwyldroadol yn erbyn trais, mympwyon a balchder grym, ac â'i phle dros y gwan. Mae Cristnogion yn gwneud rhy ychydig i wneud y pwyntiau hyn yn glir … Mae Cristnogaeth sefydliadol yn addasu'n rhy rwydd i addoli grym. Dylai Cristnogion beri mwy o dramgwydd, synnu'r byd yn llawer mwy nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. (*Fy Nerth a Wneir yn Berffaith mewn Gwendid, Bonhoeffer*, 1934)

Wrth reswm, roedd y diwinydd o'r Almaen yn siarad pan oedd Hitler yn manteisio ar wendid ei genedl. Bu farw Bonhoeffer oherwydd ei barodrwydd i herio awtocratiaeth Hitler a'i ffordd o drin y sawl a'i gwrthwynebai. Onid dyna agwedd pob llywodraeth unbenaethol? Mae llawer gormod yn ein byd cyfoes. Serch hynny, erys yr egwyddor sylfaenol: fod angen i'r Eglwys fel cymuned ffydd holi a herio pob llywodraeth. Ni wyddom beth fydd llwybr Archesgob Caergaint, y Parchg Sarah Mullally. Ni allwn ond dymuno'n dda iddi hi yn ei swydd newydd, gan ddathlu fod Anglicaniaid Lloegr wedi bod mor ddewr â'r Eglwys Wladol yng Nghymru wrth ddewis gwraig fel archesgob.

Os na fyddwn yn holi ac yn herio'r wleidyddiaeth sydd yng Nghymru, pwy fydd yn gwneud hynny? Gweler cyfweliadau Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, â chwech o arweinwyr y pleidiau sy'n gofyn am ein cefnogaeth yn yr etholiad seneddol yng Nghymru ar eu gwefan: www.cytun.co.uk. Mae'n bwysig ein bod yn effro i oblygiadau'r polisïau sy'n rhan o faniffesto'r pleidiau ar faterion fel cyfiawnder a'r amgylchedd, addysg ac iechyd, cyflogaeth a thrafnidiaeth.

Roedd pymtheg o'r trigain Aelod o'r Senedd yng Nghaerdydd bedair blynedd yn ôl yn ddiaconiaid mewn eglwysi, gydag eraill yn arddel perthynas â'r Eglwys. Yn ddi-os roeddent yn bobl sylfaenol dda, ond i ba raddau y gwnaethom ystyried a fu i ganlyniadau'r polisïau a fu'n sylfaen eu gweithredu lwyddo i hyrwyddo cymdeithas gyfiawn a gwâr yng Nghymru? Wrth fwrw iddi i ganfasio fy hun, ofnaf fod yna ddihidrwydd sy'n rhemp yn y broydd hyn a thlodi enbyd yn cael ei amlygu, hyd yn oed yn edrychiad y tai a'u deiliaid. Mae'n bwysig fod pawb yn ystyried y dewis sydd gennym ac yn pleidleisio yn unol â'r hyn sy'n adlewyrchu ein deall ni o'r hyn yw gwerthoedd a blaenoriaethau'r gymdeithas Gristnogol.

Cyfaddefaf, serch hynny, fy mod i wedi cywilyddio wrth weld darn o fideo yn dangos arweinwyr crefyddol yr Unol Daleithiau yn bendithio'r Arlywydd Trump, ac yntau'n gweld militariaeth fel arf gyfiawn i gael llywodraethau eraill yn y byd i ufuddhau i'w flaenoriaethau yntau. Mae ef, fel yr Arlywydd Putin, yn arfer polisïau hunanol, heb unrhyw ots am warineb na thegwch i economïau'r gwledydd sy'n datblygu. Nid yw cyfiawnder cymdeithasol na thegwch dyngarol yn rhan o'r agenda gyfoes ym mhob gwlad. Os yw hynny'n wir ar lwyfan byd-eang, mae hefyd yn wir yn ein cymunedau lleol, ac mae'n hanfodol ein bod fel eglwysi, er mor wan yr ydym yn ymddangos, yn codi ein llais ac yn ymwneud â'r broses wleidyddol ym mhob cwmwd a chymdeithas.


## Cyflwyno Medal Gee ym Môn

Cynhelir oedfa arbennig yng nghapel Glasinfryn, Llanbedrgoch, Ynys Môn, am 2 o'r gloch brynhawn Sadwrn, 18 Ebrill, i gyflwyno Medal Gee i Miss Jane Richards i gydnabod ei ffyddlondeb a'i llafur i waith yr ysgol Sul trwy gydol ei hoes.

Bydd yr oedfa dan ofal y Parch. Aled Davies, Ysgrifennydd y Cyngor Ysgolion Sul, a chymerir rhan gan blant yr eglwys a chyfeillion. Croeso cynnes i bawb.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 18

## Ymson Michal

Ro'n i wedi cwympo dros fy mhen a'm clustiau mewn cariad â Dafydd. Rhyfeddais at ei harddwch a'i ddewrder, a chlywais ef yn siarad gyda sicrwydd am Dduw. Hoffais hynny a llenwodd fy nghalon â chynhesrwydd. Ond parodd ei fawredd i fy nhad, Saul, deimlo'n fychan. Pan ddeallodd fy mod yn caru Dafydd, aeth yn wyllt. Gwenodd, gan esbonio y byddai'n caniatáu'r uniad am y byddai hynny'n fodd o dwyllo Dafydd. Fe gawn ei briodi pe byddai Dafydd yn llwyddo i ladd cant o Philistiaid! Roedd yn loes calon imi fod fy nhad yn gallu fy nefnyddio fel hyn. Ofnwn i'r byw hefyd y byddai Dafydd yn cael ei ladd.

Er mawr ryddhad, dychwelodd Dafydd o'r frwydr â dau gant o flaengrwyn fel prawf o'i lwyddiant. Felly rhoddwyd fi iddo. Am sbel, ro'n i'n hapus. Credwn y byddai serch yn fy nghario ar ei adenydd. Meddyliwn y byddai cenfigen fy nhad yn cilio. Ro'n i'n ifanc a heb ddeall eto ffyrdd dynion.

Yna, un noson, clywais filwyr yn sibrwd tu allan i furiau ein cartref a sylweddolais eu bod am ladd Dafydd pan ddôi'r bore. A'r foment honno, yn y gwely, dewisais amddiffyn fy ngŵr. Cynllwyniais ffordd iddo ddianc, a chyn iddi wawrio lluchiais raff allan drwy'r ffenest. Cusanodd Dafydd fi cyn iddo'i ostwng ei hun i lawr y rhaff yn araf ac yn dawel. Daliais ynddi mor dynn nes bod cledrau fy llaw yn gwaedu; dyna faint ro'n i'n ei garu. Yna, wedi iddo ddianc, gosodais y gwely i edrych fel petai Dafydd yn dal yno. Yn sydyn, rhuthrodd y milwyr i mewn, a dywedais wrthyn nhw nad oedd Dafydd yn teimlo'n dda a'i fod yn cysgu. Roedden nhw'n dwp ac fe gredon nhw'r stori. Ond doedd fy nhad ddim yn wirion, a gorchmynnodd i'r milwyr ddychwelyd a chario Dafydd yn ogystal â'r gwely ato! Ond roedd Dafydd wedi hen fynd erbyn hynny a'm gadael yno ar fy mhen fy hun.

Doedd dim allwn i ei wneud ond dweud celwydd wrth fy nhad a chyfaddef fod Dafydd wedi fy mygwth. Gwyddwn, wrth gwrs, nad oedd hyn yn iawn, ond beth arall allwn i ei wneud? Roedd serch yn dal i f'arwain, ond ro'n i wedi colli'r person ro'n i'n ei garu. Dyna fy nhristwch.

Yna, rhoddwyd fi i ddyn arall. Cefais fy rhoi … fel pe bawn yn declyn neu'n ddarn o offer, rhywbeth i'w feddiannu!

Aeth y blynyddoedd heibio, a bob hyn a hyn byddwn yn clywed am ryw ferch neu'i gilydd a gafodd ei dewis fel gwraig newydd i Dafydd. Roedd nifer o ferched yn gariadon iddo hefyd ac fe gafodd blant dirifedi. Cododd i fod yn arwr, yn frenin, yn ddyn grymus. Ac yna fe gefais sioc, oherwydd ces gais i ddychwelyd ato. Doedd o ddim wedi fy anghofio ac roedd rhyw gysur yn hynny. Ond eto i gyd, ro'n i'n wraig i Paltiel ac yntau'n meddwl y byd ohonof. Roedd ein bywyd yn llyfn ac yn hawdd.

Er mor gymysglyd fy meddwl, fe es i. Dilynodd Paltiel y tu ôl imi, yn crio. Welodd neb fy nagrau i. Teimlais fy mod yn diflannu. Gwyddwn y byddwn i, ryw ddiwrnod, yn gorfod edrych i lawr o ffenest wahanol a gweld Dafydd yn dinoethi ac yn dawnsio o flaen merched eraill. Y diwrnod hwnnw byddai fy nghalon yn oeri a byddwn yn sylweddoli, er gwaethaf fy ngwaed brenhinol, na chefais f'amddiffyn rhag gwawyffon serch.

**Holi**

• Defnyddiwyd Michal fel arf gan ei thad. Oes yna bobl heddiw sy'n cael eu defnyddio – yn emosiynol, yn broffesiynol, yn gymdeithasol, yn wleidyddol, yn grefyddol hyd yn oed – er mantais i rywun arall?

• Roedd Michal yn meddu ar ddewrder, er na chafodd hynny ei gydnabod ar y pryd. Ydyn ni'n rhoi digon o glod i weithredwyr dewr ein hoes?

• Labelwyd Michal fel merch a gwraig. Sut mae labeli (disgwyliadau teuluol a/neu briodasol, ymrwymiadau gyrfaol, diffiniadau cymdeithasol a/neu eglwysig etc) yn siapio ac yn effeithio ar ein hunaniaeth ni heddiw?

• Flynyddoedd wedi iddi achub Dafydd, amlygwyd chwerwder Michal am yr hyn na fu. A yw poen yn tueddu i ailgodi i'r wyneb neu a oes modd iacháu briwiau sydd heb eu datrys? Pa ymarferion sy'n ein galluogi ni i osgoi briwiau a chwerwder?

**Gweddi**

Dduw, os bydd chwerwder,
gofynnwn am ryddhad.
Os bydd cydymffurfio niweidiol,
gofynnwn am ddewrder.
Os bydd anghyfforddusrwydd,
gofynnwn am gynhaliaeth.
Os bydd ansicrwydd,
gofynnwn am ddoethineb.
Os bydd drysau wedi cau,
gofynnwn am eu datgloi.
Os bydd cynnen, gofynnwn am gymod.
Os bydd casineb, gofynnwn am gariad.
Amen.

*Sian Meinir*

BBC radio cymru | S4C

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 19 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Sian Meinir, Penarth, yn dathlu 250 o flynyddoedd ers geni Ann Griffiths

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 19 Ebrill, am 12.00yp**
Oedfa Radio Cymru – oedfa o dan arweiniad Andras Iago, Dinbych

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 19 Ebrill** – dim rhaglen

# Awtomeiddio Rhyfel

### Yn yr erthygl hon, a gyflwynwyd mewn gwylnos yng Nghaernarfon yn ddiweddar, mae Dr Gwyn Williams yn trafod y modd y mae technoleg ac AI yn newid dulliau rhyfela

Mae Netanyahu a'i gynghrair yn dal i erlid y Palestiniaid yn Gasa ac yn meddiannu eu tir ar y Llain Orllewinol, yn ymosod a meddiannu mwy o dir yn Lebanon ac yn bygwth Syria. A chyda'i gefnogwr Trump (sydd wedi cyfrannu tua 70% o'r adnoddau i alluogi'r hil-laddiad yn Gasa) maent hefyd wedi ymosod ar Iran, a'r rhyfel yn ymledu drwy'r Dwyrain Canol.

Rydym yn byw mewn cyfnod lle mae rhyfel yn newid. Dros y canrifoedd, rydym wedi gweld trais yn esblygu, ond bodau dynol oedd y rhai oedd yn gwneud y penderfyniadau bob tro.

### Peiriannau'n rheoli

Bellach rydym yn symud i fyd lle gall peiriannau wneud y penderfyniadau yma, peiriannau nad ydyn nhw'n teimlo ofn, nac empathi, nac unrhyw un o'r emosiynau a ddylai ein hatal rhag gwneud niwed.

Yn y rhyfel yn Iran mae technoleg Project Maven yr Unol Daleithiau wedi ei defnyddio, ac yn ôl Al Jazeera mae 9,260 o gartrefi ac adeiladau wedi'u difrodi ac amcangyfrifir bod dwy fil wedi'u lladd. Mae gan y dechnoleg yma, sydd wedi'i datblygu gan gwmni Plantir, y gallu dieflig i dargedu cant o lefydd mewn awr. Doedd y dechnoleg yma ddim yn medru gwahaniaethu rhwng y targed militaraidd a'r ysgol gynradd lle y lladdwyd 168 o blant – 'technoleg sy'n ddigon cyflym i dargedu'r adeiladau, ond yn rhy gyflym i sylweddoli ei bod yn taro'r rhai anghywir'.

Mae rhyfel yn ofnadwy pan fydd pobl yn rhyfela. Ond pan fyddwn yn ei awtomeiddio, rydym yn tynnu'r elfen olaf o gydwybod sydd ar ôl. Mae'n creu pellter lle nad oes neb yn teimlo sioc ei ganlyniadau, neb yn gweld y llygaid sy'n cau am y tro olaf, neb yn clywed y distawrwydd sy'n disgyn ar ôl ffrwydrad. Pan fydd algorithm yn penderfynu, mae'r byd yn troi'n rhifau, ac mae bywyd yn troi'n ddata.

Pan fydd rhyfel yn troi'n broses dechnegol, mae'n haws ei gychwyn.




Mae'n haws ei gyfiawnhau. Mae'n haws ei guddio. Mae'n haws anghofio mai pobl go iawn sy'n dioddef.

### Delio â chamgymeriadau

Bydd systemau'n methu. Bydd data'n anghywir. Bydd algorithmau'n gweld bygythiad lle nad oes un. A phan fydd hynny'n digwydd, nid gwall bach ar sgrin ydyw. Mae'n fywyd coll. Mae'n deulu wedi'i chwalu. A phwy sy'n atebol? Pwy sy'n sefyll i fyny a dweud, "Fi wnaeth hyn"? Y gwir ydi: does neb. Mae'r cyfrifoldeb yn diflannu i mewn i'r cod.

Mae peiriannau'n gweithredu'n gyflymach nag y gall unrhyw un ohonom feddwl. Gall dwy system ar ddwy ochr wrthwynebol gamddehongli ei gilydd mewn eiliad, ac o fewn munudau gallai'r byd fod ar ymyl rhyfel nad oedd neb yn bwriadu ei ddechrau ac fe allai hwnnw fod yn rhyfel niwclear. Mae hyn yn digwydd nid oherwydd casineb, nid oherwydd penderfyniad gwleidyddol – ond oherwydd algorithm.

Mae'n bygwth creu byd lle mae rhyfel yn digwydd heb i neb hyd yn oed sylwi ei fod yn dechrau. Rhaid i ni wrthod dyfodol lle mae peiriannau'n penderfynu pwy sy'n byw a phwy sy'n marw. Rhaid dweud bod bywyd dynol yn rhy werthfawr i'w reoli gan algorithm.

Gallwn ddewis dyfodol lle mae technoleg yn ein helpu i adeiladu heddwch, nid i wneud trais yn fwy effeithlon. Gallwn ddewis dyfodol lle mae ein dynoliaeth yn arwain at fyd cymodol a heddychlon.

Dyw'r frwydr yma ddim yn erbyn technoleg, Mae'n frwydr dros y syniad sylfaenol bod bywyd dynol yn sanctaidd. Mae'n frwydr dros y gred nad yw trais byth yn dderbyniol nac yn rhywbeth i'w awtomeiddio. Mae'n frwydr dros ddyfodol lle mae heddwch yn ddewis gweithredol, nid yn obaith naïf.

### Sefyll ar groesffordd

Rydyn ni ar groesffordd. Gallwn droi i'r cyfeiriad sy'n gwneud rhyfel yn haws, yn gyflymach, ac yn fwy dideimlad nag erioed. Neu gallwn ddewis y llwybr arall – y llwybr sy'n gofyn am ddewrder, am foeseg, am ddychymyg. Y llwybr sy'n dweud: mae bywyd yn bwysig. Mae cyfrifoldeb yn bwysig. Mae heddwch yn bosibl.

A dyna'r llwybr y dylem i gyd ei ddewis. Dewiswn heddwch, dewiswn ffordd cymod i sicrhau'r dyfodol y mae ein plant a'n hwyrion yn ei haeddu.

## Gair o gydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farw'r Parch. Dafydd H. Owen, Caerdydd, yr wythnos ddiwethaf. Bu'n fawr ei gyfraniad a'i wasanaeth ym mhob maes y'i galwyd iddo. Cafodd ei godi i'r weinidogaeth, ynghyd â'i frawd Tudur ac amryw eraill, yng Nghapel Pontrythallt, Llanrug. Wedi graddio â BSc a BD yn Aberystwyth, fe ddechreuodd ei weinidogaeth ym Moreia, Llansteffan, yn sir Gaerfyrddin, cyn symud i Ebeneser, Caergybi.

Ef a'i wraig, Brenda, a gychwynnodd y gwaith ieuenctid yng Ngholeg y Bala ym 1967 wedi i Dafydd gael ei benodi fel ein Caplan Ieuenctid cyntaf. Symudodd wedyn i Lerpwl yn Ysgrifennydd ar Fwrdd y Genhadaeth. Bu'n Ysgrifennydd Cyffredinol EBC a gorffen ei weinidogaeth yn Llundain.

Cydymdeimlwn yn fawr â Brenda, Rhys a Rhian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Bydded yr Arglwydd yn gynhaliaeth gadarn o'u blaen fel y bu i Dafydd.

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru ar 01745 817584 neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.